



Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion ddydd Sadwrn 22 Chwefror 2020

2020.01: Addoli agoriadol, croeso a nodi presenoldeb

Yn ystod ein haddoli agoriadol darllenwyd rhif 7 *Cynghorion ac Ymholiadau* yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

Rydym yn croesawu 37 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodir ar y rhestr bresenoldeb.

Cynrychiolwyr y Cyfarfodydd Ardal heddiw yw:

- CA De Cymru : Chris Holmquist
- CA Gororau'r De: Peter Rivers
- CA Canolbarth Cymru: Alan Clark
- CA Gogledd Cymru: Rhian Parry a Mike Clark

Ein henaduriaid heddiw yw Theresa Haine (y bore), Hock Lim (y prynhawn) a Jess Morgan.

Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan William.

2020.02 Adroddiadau ar gyfer Calon a'r *Friend*

Bydd Christine Trevett yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i *Calon* a bydd David Harries yn ysgrifennu ar gyfer *The Friend*.

2020.03 Cofnodion penderfyniadau rhwng cyfarfodydd

- Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu a chreu gwefan newydd i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru (CCNg) wedi cael ei benodi ac mae'n cynnwys y Cyfeillion canlynol: Medi James (CC), Jules Montgomery, Alma Whitten (CC), Catherine James (GC), Huw Meredydd Owen (GC) a Rhian Parry (GC - cynullydd).
- Mae gweithgor cychwynnol wedi'i sefydlu i ddwyn y gwaith rhagddo ar Symleiddio ein Strwythurau, yn unol â Chofnod 19.33i Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Cytunodd y Cyfeillion canlynol i wasanaethu ar y grŵp yma: Eleri Elliott (cyd-glerc, GC), Gethin Evans

(cyn-glerc yr ymddiriedolwyr, CC), Penny Harding (Clerc Ymddiriedolwyr DC), a Deborah Rowlands (DC a chlerc Ymddiriedolwyr CCNg). Penderfynwyd y dylai Helen Oldridge (Gweithwraig Datblygu Lleol Cyfarfod Blynyddol Prydain (CBP)) fynychu cyfarfodydd.

- iii. Rydym wedi gwahodd Lesley Richards (CLI Church Stretton, CA Swydd Gaerwrangon a Swydd Amwythig) i weithredu fel cynullydd i'n Grŵp Llywio Symleiddio Strwythurau. Mae Lesley wedi dangos ei pharodrwydd i wasanaethu.

2020.04 Cofnodion a dderbyniwyd ers ein cyfarfod diwethaf

Rydym wedi derbyn y cofnodion canlynol gan ein Cyfarfodydd Ardal

- CAGC 11 Ionawr
- CAGD 11 Ionawr + llythyr ymateb
- CADC 20 Ionawr

2020.05 Memoranda Dealltwriaeth (MD)

Gofynnwyd i'n cyfarfodydd ardal, yn dilyn y cyfarfod ym mis Hydref yn y Drenewydd, anfon sylwadau ac awgrymiadau ar y MD arfaethedig rhwng

- CCNg a Chyfarfodydd Ardal a
- CCNg a CBP

Dygir yr MD rhwng CCNg a CBP i gyfarfod CCNg ym mis Mehefin ym Mangor i roi amser am ddirnadaeth bellach gan y grŵp Blaengynllunio.

Mae Cyfarfodydd Ardal wedi darllen a thrafod yr MD rhwng CCNg a Chyfarfodydd Ardal ac wedi anfon sylwadau at glerc CCNg ac Ymddiriedolwyr CCNg.

Rydym yn cydnabod manteision a heriau ein strwythur presennol – hefyd efallai y bydd angen diwygio'r MD rhwng CCNg a Chyfarfodydd Ardal ymhellach wrth i ni edrych ar symleiddio ein strwythurau. Cytunwn i gadw'r MD yma fel drafft am y tro. Cedwir copi gyda'r cofnodion hyn a dylid anfon unrhyw sylwadau at y Clercod.

2020.06 Adroddiadau

- i. Rydym wedi derbyn adroddiad cyfansawdd gan Gethin Evans ynglŷn â'r Cyfarfod Dioddefiadau, CYTŪN a QCCIR a chedwir yr adroddiad hwn gyda'r Cofnodion hyn. Nodwn awgrym Gethin y dylem neilltuo ychydig amser yn y dyfodol agos i fyfyrion ar y gweddnewidiad mewn ffydd yng Nghymru a'i oblygiadau ynghyd â gofyn y cwestiwn i ni'n hunain, 'Sut mae'r Gwirionedd yn ffynnu yn eich mysg?'

Mae Gethin Evans wedi dweud wrthon ni am y gefnogaeth y mae Hannah Brock Womak wedi'i derbyn, nid yn unig gan Gyfeillion ar draws y wlad, ond hefyd gan eglwysi eraill.

- ii. Rydym wedi derbyn adroddiad gan Chris Holmquist am rôl yr Eiriolwr dros Blant a Phobl Ifainc ar lefel y Cyfarfod Ardal ac yn CBP. Nodwn, yn dilyn adolygiad gan *Quaker Life*, fod cefnogaeth rôl yr Eiriolwr dros Waith gyda Phlant a Phobl Ifainc yn parhau yng Nghymru a'r Alban ond wedi'i ddirwyn i ben mewn manau eraill.

Fe'n hatgoffir am bwysigrwydd gwaith gyda phlant, pobl ifainc a theuluoedd fel rhan o'n tystiolaeth i gydraddoldeb ac sy'n deillio o awydd i gyfarfodydd fod yn gymunedau cynhwysol, croesawus ac amrywiol. Rydym i gyd yn gyfrifol am ofalu am ein plant a phobl ifainc. Sut rydym yn sicrhau bod ein cyfarfodydd yn barod i dderbyn plant, pobl ifainc a theuluoedd a meithrin eu cyfranogaeth a'u twf? Cedwir copi o adroddiad Chris gyda'r cofnodion hyn.

2020.07 Enwebiadau a phenodiadau

Enwebiadau a ddygir gerbron:

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n dwyn yr enwau canlynol gerbron:

Christine Trevett (CADC) i wasanaethu fel cynrychiolydd CCNg gyda'r Grŵp Llywio ar gyfer Symleiddio Strwythurau.

Mae'r grŵp chwilio (yn cynnwys Deborah Rowlands a Sue Shreeve) yn dwyn gerbron enw Jeff Beatty (CAGD) i wasanaethu Pwyllgor Enwebiadau CCNg tan fis Rhagfyr 2022 Catherine James (CAGC) i wasanaethu Pwyllgor Enwebiadau CCNg tan fis Rhagfyr 2020

Ar ben hynny, mae'r grŵp chwilio'n dwyn gerbron enw Jeff Beatty i weithredu fel cynullydd y Pwyllgor Enwebiadau tan fis Rhagfyr 2021 (gan adael amser i drosglwyddo'r rôl)

Gan fod y Cyfeillion hyn yn fodlon, fe'u penodir fel sy'n briodol.

Penodiadau o gyfarfod mis Hydref yn y Drenewydd 2019

Jeff Beatty i weithredu fel person cyswllt â Sioe Frenhinol Cymru 20-23 Gorffennaf 2020

Cais i gael ei rhyddhau o'i rôl

Mae Shazia Jamshed wedi gofyn cael ei rhyddhau o Bwyllgor Enwebiadau CCNg. Cytunwn i'r cais yma gan ddiolch i Shazia am ei gwasanaeth.

Enwebiadau a geisir:

Gofynnwn i Enwebiadau chwilio am

Enw am gyd-glerc ar gyfer 2021 a 2022

Enw am ymddiriedolwr o CACC

Enw am drysorydd cynorthwyol cyn gynted â phosibl

Cynrychiolydd i gysylltu â Cytûn a chydlynu presenoldeb y Crynwyr yn yr Eisteddfod
Genedlaethol yn Nhregaron 1-8 Awst, 2020.

2020.08 Adroddiad y Grŵp Ffocws

Mae Peter Hussey wedi'n harwain wrth ystyried blaenoriaethau i'r Crynwyr yng Nghymru. Beth sy'n hanfodol i'r Crynwyr yng Nghymru? A ydym yn cael ein clywed? A oes gennym rywbeth i'w ddweud ac a ydym yn ei ddweud?

Gofynnodd Peter i'r Grŵp Ffocws fod yn fwy annatod i fywyd Crynwyr yng Nghymru. Mae angen i ni ganolbwyntio ar y dyfodol. Mae Cymru, i raddau helaeth, wedi bod yn anweledig mewn bywyd cyhoeddus a phroblem barhaus yw hon. Pam mai felly y mae hi? Rhaid i ni fod yn ymwybodol o gyflawniadau yng Nghymru ers datganoli sy'n cynnwys deddfwriaeth flaengar megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a hefyd penderfyniadau megis y rheini ynglŷn â'r M4 a ffracio. Ar ben hynny, arweinydd byd-eang yw Cymru wrth hyrwyddo diwylliant dwyieithog. Mae dyheadau gan Lywodraeth Cymru hefyd mewn meysydd eraill fel iechyd, addysg, trafnidiaeth, amaethyddiaeth a defnydd tir, er mai digon araf yw'r newid.

Rydym yn wynebu her newydd yng Nghymru yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol gan gynnwys y posibilrwydd y bydd datganoli yng Nghymru a'i gyflawniadau'n cael eu tanseilio.

Sut mae hyn yn effeithio arnom fel Crynwyr? A yw'n wir bod Cymru hefyd yn anweledig i Grynwyr, gan gynnwys yng Nghymru ei hun? A oes gan y Cyfeillion yng Nghymru unrhyw beth i'w ddweud ac a ydym yn hyrwyddo'r gwaith sy'n digwydd yma, gan gynnwys mewn ysgolion a chyda ffoaduriaid?

Sut gall Cyfeillion ymgysylltu â'i gilydd ar draws rhaniadau daearyddol a diwylliannol yng Nghymru? Un ateb yw technoleg drwy ddefnyddio apiau megis Zoom.

Mae gennym ddull profedig ar gyfer rhannu materion fel Crynwyr. Dyma un ffordd o rannu ein harweiniad – o lawr gwlad i'r Cyfarfod Dioddefiadau. Mae angen i ni brofi ein dirnadaeth drwy sianelau'r Crynwyr, ond hefyd mynegi ein harweiniad mewn fforymau eraill yn y cyfryngau.

Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'n dewis o ran ffynonellau gwybodaeth a bod yn ofalus ein bod yn graff wrth eu defnyddio.

Mae Grace Da Costa, y Swyddog Cyswllt Seneddol yn Friends House, yn agored iawn i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru a'r Alban a rhaid i ni fod mewn cysylltiad rheolaidd â hi.

Awgrymodd Peter sefydlu grŵp e-bost y gall Cyfeillion ymuno ag o os ydynt yn poeni am faterion a datblygiadau gwleidyddol yng Nghymru a chymryd camau yn eu cylch.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod amser cinio lle y gallai Cyfeillion oedd yn bresennol nodi eu blaenoriaethau.

Mae Cyfeillion yng Nghymru wedi mynegi'r dymuniad i ddod i nabod ei gilydd yn well er gwaethaf heriau'r ddaearyddiaeth. Nododd Chris Holmquist y byddai gwell mynediad i Wifi yn ein Tai Cwrdd yn ein cynorthwyo i gysylltu â'n gilydd yn ddigidol.

Fe'n hatgoffwyd gan Christine Lewis ein bod eisoes wedi codi'r mater o'r Gwir ac Uniondeb mewn Grym yn y Cyfarfod Dioddefiadau. Rydym yn gobeithio parhau â'r mater hwn.

Diolchwn i Peter am ei gyflwyniad ysbrydoledig a gedwir gyda'r cofnodion hyn.

2020.9 Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Wefan

Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen y wefan wedi adrodd wrthon ni.

Prif dasgau'r grŵp yw sicrhau bod yna wefan newydd sy'n ddwyieithog ac sy'n adlewyrchu materion y Crynwyr yng Nghymru. Offeryn arall fydd y wefan a fydd yn ein galluogi i rwydweithio ac aros mewn cysylltiad. Gall hefyd gefnogi'r gwahanol Gyfarfodydd Ardal.

Mae'r grŵp wedi gofyn i'r rheini sy'n bresennol heddiw gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y wefan yn ystod yr awr ginio gan roi adborth ynglŷn â strwythur, cynnwys a chynllun arfaethedig y wefan. Cyflwynodd Rhian Parry yr ymgynghoriad a beth mae'r grŵp yn gobeithio cael ohono. Byddai'r grŵp yn hoffi derbyn adborth erbyn diwedd mis Mawrth.

2020.10 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae Deborah Rowlands wedi sôn am Adroddiad yr Ymddiriedolwyr sydd wedi'i ddsbarthu drwy e-bost ac sydd ar gael yma heddiw mewn print.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi cyflwyno i ni eu cyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod y cedwir copi ohoni gyda'r cofnodion hyn.

Rydym yn derbyn cyllideb yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys ffigur am weithio gyda Chyfarfodydd Ardal ar faterion symleiddio i ddwyn cofnod 19.33i rhagddo yn ogystal â chyllid ar gyfer datblygu'r wefan.

Rydym yn cytuno i ofyn i Gyfarfodydd Ardal cysylltiedig gyfrannu £5.25 y pen eto eleni.

Nodwn benderfyniad yr Ymddiriedolwyr i gyhoeddi adroddiad blynyddol cryno dwyieithog eleni ar ben yr adroddiad llawn fel sy'n ofynnol gan y Comisiwn Elusennau.

Rydym yn derbyn Jeff Nagle fel yr archwiliwr annibynnol eto eleni.

Nodwn benodiad Huw Meredydd Owen fel cynrychiolydd yr Ymddiriedolwyr gyda'r Grŵp Llywio Symleiddio Strwythurau.

2020.11 Symleiddio ein Strwythurau

Cyfarfu'r gweithgor cychwynnol a benodwyd i ddwyn Cofnod 19.33i rhagddo parthed Symleiddio ein Strwythurau 14 Ionawr 2020.

Nodwn enwau'r Grŵp Llywio Symleiddio fel a welir ar yr agenda.

Ymddiriedolwr CCNg: Huw Meredydd Owen, CLI Pwllheli, Gogledd Cymru

CCNg: Christine Trevett, CLI Pen-y-bont ar Ogwr, De Cymru

Ymddiriedolwr CCNg: Diana Morrison Smith, CLI Machynlleth

CCNg: Alan Clark, CLI Aberystwyth

Ymddiriedolwr GC: Gerry Craddock, CLI Wrecsam

GC: Frances Voelcker, CLI Porthmadog

Ymddiriedolwr GD: Jeff Beatty, CLI Almeley Wooten (hefyd yn ymddiriedolwr CCNg).

GD: Peter Rivers, CLI Cwm Clun

(Penny Harding, clerc eilydd Ymddiriedolwyr GD)

Ymddiriedolwr DC: Peter Davies, CLI Pen-y-bont ar Ogwr *

DC: Brian Jackson, CLI Tyddewi (hefyd yn Ymddiriedolwr DC)*

1. Rydym yn nodi sefydlu Gweithgor Cychwynnol i ddwyn y cofnod rhagddo.
2. Rydym yn derbyn y Cylch Gorchwyl fel a ddosbarthwyd gyda'r agenda.
3. Rydym yn penodi Lesley Richards fel clerc i'r grŵp.
4. Cytunwn i sicrhau bod dyrannu'r cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei gynnwys yng nghyllideb 2020, fel a gymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr CCNg. Bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn cyllidebu ar gyfer y posibilrwydd o amser gweinyddu i gynnal y grŵp.
5. Rydym yn dirwyn y gweithgor cychwynnol i ben gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth.

2020.12 Trafodaeth mewn Grwpiau am Gyfeillion mewn Rolau:

Mae'r Cyfeillion sy'n bresennol heddiw wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth yn edrych ar brif rolau'r Crynwyr yn strwythurau ein Cyfarfodydd Ardal a Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, sef rolau'r Ymddiriedolwr, Trysorydd, Eirolder dros Waith gyda Phlant a Phobl Ifainc ac aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau. Rydym wedi ystyried y cyfleoedd a'r heriau sy'n dod yn sgil y rolau hyn a sut mae gwasanaeth wedi'i wreiddio yn ein bywydau fel Crynwyr gan roi maeth iddynt. Rydym hefyd wedi ystyried ffyrdd y gall deiliaid rolau rannu tasgau neu gydweithio'n agosach ar draws Cyfarfodydd Ardal gan ysgafnu'r baich a galluogi'r ysbryd i lifo. Bydd nodiadau o'r 4 grŵp trafod yn cael eu cadw gyda'r cofnodion hyn gan gael eu hanfon ymlaen at y Gweithgor Symleiddio Strwythurau i'w helpu yn eu gwaith.

Llofnodwyd: Tricia Bridgewater (clerc)

Jane Harries (clerc cynorthwyol)

Ruth Moore Williams (clerc cynorthwyol)